Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Casmael**
**Hwlffordd**
**Sir Benfro**
**SA62 5RL**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Casmael

Lleolir Ysgol Casmael ar gyrion pentref Casmael a chaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Benfro. Mae 59 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Tros dreigl tair blynedd, mae tua 8% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae 5% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 30% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Medi 2009 a chafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Chwefror 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol iawn i gynllunio cwricwlwm cyffrous, creadigol ac ysgogol i'r disgyblion.  Maent yn darparu profiadau ymarferol a diddorol iddynt sy'n ennyn diddordeb bron pob un ohonynt yn llawn.  Mae hyn yn cynorthwyo'r disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus a gwybodus.

Mae'r arweinyddiaeth yn gryf a blaengar ac yn datblygu'r ysgol yn gymuned ddysgu greadigol lwyddiannus iawn, sy'n gwneud y mwyaf o'i chymuned a'i milltir sgwâr i gyfoethogi addysg ei disgyblion.  Mae gan bob aelod o'r staff ddisgwyliadau uchel iawn i sicrhau lles a chynnydd pob unigolyn.  Mae hyn yn creu amgylchedd ddysgu iach, lle mae pob disgybl yn cael ei annog i weithio'n galed ac i greu gwaith o safon uchel.  Mae bron pob disgybl yn hynod gwrtais ac yn dangos lefel uchel o barch tuag at ei gilydd ac oedolion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr addysgu yn datblygu annibyniaeth yr holl ddisgyblion yn gyson yn y cyfnod sylfaen

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd Ysgol Casmael yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â chynllunio cwricwlwm creadigol a chyffrous sy’n datblygu medrau disgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau mwyafrif y disgyblion yn agos at, neu yn is na’r, lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf, gan gynnwys disgyblion ag anghenion ychwanegol, yn cyflawni'n dda o ystyried eu mannau cychwyn. Mae llawer yn gwneud cynnydd cryf iawn mewn gwersi ac yn cynhyrchu gwaith o ansawdd uchel yn gyson.

Mae bron pob un disgybl yn datblygu eu medrau gwrando yn effeithiol iawn. O oed cynnar, mae’r rhan fwyaf yn gwrando’n astud ar oedolion ac ar ei gilydd. Maent yn dangos parch a chwrteisi at ei gilydd wrth gymryd rhan mewn trafodaethau ac mae’r disgyblion ieuengaf a’r rheini sydd â’r Gymraeg yn newydd iddynt yn datblygu eu medrau llafar yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf yn datblygu’u medrau llafar yn gadarn yn Saesneg ac yn y Gymraeg. Mae’r rhan fwyaf yn cyfrannu’n dda at drafodaethau, gan fynegi eu barn yn glir ac yn aeddfed. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn defnyddio geirfa addas a chywir, er enghraifft wrth gyflwyno dadleuon o blaid ac yn erbyn achos yn llys barn Casmael.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu hymwybyddiaeth ffonolegol yn effeithiol ac yn defnyddio strategaethau addas er mwyn adnabod geiriau newydd yn llwyddiannus. Defnyddiant fedrau darllen cynnar yn fedrus, er enghraifft wrth ddarllen heriau yn yr ardaloedd dysgu. Mae disgyblion yn adeiladu ar eu medrau darllen yn llwyddiannus iawn yng nghyfnod allweddol 2. Mae’r rheini o allu uwch yn darllen testunau heriol yn hyfedr ac yn ddeallus o’u llyfrau darllen ac yn ystod gwersi. Maent yn cyfrannu’n aeddfed i drafodaethau am yr hyn maent wedi ei ddarllen yn y ddwy iaith gan ddangos dealltwriaeth gadarn o gymeriadau a llif y stori. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un disgybl yn defnyddio uwch fedrau darllen yn effeithiol iawn i gywain gwybodaeth am gymeriadau a sefyllfaoedd o destun, er enghraifft wrth drafod cymeriadau nofel Saesneg.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Maent yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn effeithiol. Maent yn ysgrifennu at wahanol bwrpasau, ac mewn cyfres o frawddegau cyffrous gyda chywirdeb cynyddol, er enghraifft wrth ysgrifennu portread o Sam Tân. Fodd bynnag, maent ar adegau ychydig yn or-ddibynnol ar sgaffaldau ysgrifennu sy’n cyfyngu ar allu ychydig i ysgrifennu yn rhydd ac annibynnol i’r un safon. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un disgybl yn ysgrifennu darnau estynedig, diddorol o safon uchel mewn amrywiaeth o ffurfiau yn gynyddol gywir yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn gelfydd i ysgrifennu yn effeithiol iawn ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio geirfa gyfoethog i greu effaith ac empathi yn eu cyfansoddiadau, fel mewn llythyron o safbwynt milwyr yn y ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gydag un yn agor gyda’r frawddeg, “Gwlyb ... unig ... hiraethus”.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu’n gadarn iawn. Yn y dosbarth derbyn, mae bron pob un yn darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 20 ac yn trin bondiau rhif yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae gan bron pob un fedrau mathemateg pen cadarn, er enghraifft wrth gyfrifo cost eitemau yng nghaffi bwyd iach Bela. Trwy’r cyfnod sylfaen, maent yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur,

arian, amser a thrin data. Maent yn gwneud hyn o fewn a thu allan i'r dosbarth, er enghraifft wrth fesur moron gan ddefnyddio unedau safonol ac ansafonol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o nodweddion mathemategol, gan gynnwys gweithdrefnau adio, tynnu, lluosi a rhannu yn gadarn iawn. Mae disgyblion yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth yn fedrus mewn gwahanol ffyrdd i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau rhifedd i safon uchel iawn wrth gwblhau heriau cyson. Mae'r disgyblon mwy abl yn datrys problemau mwyfwy cymhleth, er enghraifft wrth gyfrifo cyfaint silindrau a phrismau gwahanol yn llwyddiannus.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol ar draws yr ysgol. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau yn hyderus yn y meysydd dysgu, er enghraifft wrth greu graffiau sy'n dangos hoffter plant o wahanol ffrwythau. Yng nghyfnod allweddol 2, maent yn defnyddio pecynnau prosesu geiriau yn llwyddiannus i gyflwyno'u gwaith a rhaglenni cyflwyno i gyfleu gwybodaeth i'r dosbarth a'r ysgol gyfan. Maent yn creu basau data yn llwyddiannus ac yn dehongli'r data yn gywir. Defnyddiant fformiwlâu mewn celloedd taenlenni yn effeithiol a thrafodant y canlyniadau ar ffurf graff yn gywir.

Mae medrau creadigol rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn nodwedd gref. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn creu gwaith creadigol o safon uchel tu hwnt, er enghraifft trwy efelychu arddulliau arlunwyr lleol a chenedlaethol yn aml i safon uchel mewn amryw gyfryngau.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae bron pob un disgybl yn hynod gwrtais ac yn arddangos lefel uchel o barch tuag at ei gilydd a thuag at oedolion. Mae ymddygiad bron pob un yn ardderchog mewn gwersi, yn ystod amseroedd egwyl a chyfnodau o weithio annibynnol. Maent yn groesawgar i ymwelwyr ac yn trafod agweddau o fywyd yr ysgol yn fyrlymus gyda nhw. Mae bron pob un disgybl yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn falch i fod yn rhan o'i chymuned. Maent yn deall pwysigrwydd presenoldeb cyson, trwy weithgareddau a arweinir gan y disgyblion eu hunain. Mae hyn wedi arwain at sicrhau cyfartaledd presenoldeb uchel iawn dros gyfnod o amser. Mae bron pob un disgybl yn awyddus iawn i fynychu'r ysgol yn ddyddiol, gan eu bod yn mwynhau'r gweithgareddau cyffrous, ynghyd â'r gofal sydd ar gael iddynt. Maent yn mynegi'n glir sut y maent yn teimlo wrth 'glocio' i mewn ac allan o'r dosbarth ddwywaith y dydd. Maent yn gwerthfawrogi'r sylw y mae'r athrawon yn talu i'r broses hon.

Mae bron pob un disgybl yn arddangos agwedd gadarnhaol iawn tuag at eu dysgu. Mae'r agweddau hyn wedi'u sefydlu'n gadarn ar draws yr ysgol. Mae bron pob un yn awyddus i ddysgu ac maent yn dyfalbarhau'n aeddfed ar eu tasgau ac yn ymdrechu'n llwyr i'w cwblhau. Mae awyrgylch weithgar yn amlwg ym mhob dosbarth, ac mae gan ddisgyblion rôl flaenllaw mewn penderfynu ar gynnwys eu gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn eu hysgogi i ddatblygu'n ddysgwyr hyderus, gwybodus a chydwybodol. O ganlyniad, mae'r disgyblion hŷn yn cynllunio ac yn arwain gweithgareddau dysgu safonol i'w cyfoedion yn llwyddiannus.

Mae bron pob un yn hynod gydwybodol ac yn cymryd eu dyletswyddau arwain o ddifri fel aelod o un o'r amryw gynghorau. Maent yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn

effeithiol gan gadw cofnodion manwl o’u penderfyniadau. Er enghraifft, gyda chymorth y staff, maent wedi cysylltu â’r cyngor lleol i ofyn am gymorth i wella amgylchedd allanol yr ysgol. Mae aelodau’r cyngor ysgol yn flaenllaw wrth drefnu gweithgareddau codi arian at achosion da, er enghraifft wrth drefnu gweithgareddau i gefnogi elusennau cenedlaethol ac wrth godi arian yn ystod gwasanaeth diolchgarwch i elusen iechyd meddwl leol.

Mae gan bron pob un ddealltwriaeth dda o sut i gadw’n iach ac maent yn mwynhau cyfleoedd i ymgymryd â gweithgarwch corfforol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn mwynhau defnyddio offer chwarae yn yr awyr agored, ac maent yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd ymarfer corff, a gofalu am eu hiechyd. Mae gan bron pob un disgybl yng nghyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac o edrych ar ôl eu cyrff, er enghraifft wrth ddefnyddio tabledi datgelu ar eu dannedd ar ôl bwyta losin gwahanol. Mae bron pob un yn ymwybodol o sut i gadw’n ddiogel ar y we, ac yn deall yn iawn beth i’w wneud os bydd rhywbeth yn peri gofid iddynt.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol

Mae’r athrawon yn darparu cwricwlwm eithriadol o symbylus a chreadigol i’r disgyblion, sydd yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus iawn ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae’r ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog, sy’n hanu o syniadau’r disgyblion, ac yn seiliedig ar themâu byrlymus, yn llwyddo i gymell bron pob dysgwr i wneud cynnydd uchel yn eu medrau yn gyson. Mae’r staff yn sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei gyfoethogi yn effeithiol iawn drwy ddefnydd cyson o arbenigwyr, ymwelwyr ac ymweliadau. Er enghraifft, trefnwyd i blant dreulio amser gyda ‘Barti Ddu’ yn ddiweddar, yn trin a thrafod adnoddau y cyfnod, a blasu gwahanol fathau o de.

Mae athrawon yn defnyddio mewnbwn y disgyblion i gynllunio’n hynod greadigol er mwyn darparu cyfleoedd bwriadus a chydlynus i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn fedrus ar draws cwricwlwm. Maent yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd cyson i atgyfnerthu eu medrau ac i wneud cysylltiadau ystyrlon yn eu dysgu. Enghraifft arbennig o hyn yw’r prosiect hanesyddol ‘Ysgol Casmael yn Cofio’. Elwodd y disgyblion yn fawr o’r cyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth hanesyddol am yr ardal trwy weithio gydag aelodau o’r gymuned a bardd enwog i greu gwaith nodedig trwy amryw gyfryngau. Cyflawnwyd gwaith celf o safon aruchel a chyhoeddwyd llawlyfr am hanes y cyfnod sy’n arddangos amrywiol gyfraniadau safonol iawn gan y disgyblion. Cryfhawyd y berthynas rhwng yr ysgol a’r gymuned yn dilyn gwaith gan y disgyblion i greu cofeb newydd i gofio aberth trigolion lleol.

Mae’r dulliau effeithiol o gynllunio yn paratoi’r staff a’r disgyblion yn dda ar gyfer cyflwyno’r cwricwlwm newydd i Gymru, maes o law. Mae’r staff yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2 ddatblygu ystod o fedrau yn hyfedr wrth iddynt gynllunio tasgau ac arwain yr addysgu ymhlith eu cyfoedion. Mae hyn yn datblygu disgyblion fel unigolion uchelgeisiol, hyderus a gwybodus. Mae’r cynllunio ar gyfer datblygu medrau gwyddonol disgyblion yn effeithiol iawn. Mae’r staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd, trwy arbrofion pwrpasol, i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o elfennau gwyddonol ar y cyd â medrau eraill. Enghraifft dda o hyn yw pan mae disgyblion yn defnyddio offer electronig yn ystod gweithgaredd addysg gorfforol i fesur y newid mewn cyfradd curiad eu calonnau er mwyn creu graff ar daenlen. Trafoda’r disgyblion y data yn wybodus.

Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Yn gyffredinol, maent yn cynllunio cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau sydd o dan arweiniad staff a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn cyfoethogi'r ardaloedd dysgu yn fedrus gan annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain, er enghraifft wrth ofyn iddynt ddidoli sbwriel i wahanol gategorïau ar gyfer eu hailgylchu. Er hyn, ar brydiau, mae oedolion yn gor-arwain disgyblion mewn ambell dasg sydd yn llesteirio ar allu ychydig o'r disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol yn y tasgau hynny.

Mae perthynas waith gefnogol, heriol a chynhyrchiol yn bodoli rhwng yr athrawon, y cynorthwywyr a'r disgyblion ym mhob dosbarth. Mae hyn yn annog parch a chwrteisi, ac yn ychwanegu at yr ethos o gynhwysiant drwy'r ysgol. Yn yr arferion gorau, mae cyflwyniadau gwersi yn bachu dychymyg y disgyblion ac yn eu sbarduno i ddysgu yn effeithiol. Mae athrawon yn gosod her uchel a chyson i'r disgyblion, sy'n eu cadw ar dasg am gyfnodau estynedig. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt ac maent yn teilwra gwaith yn llwyddiannus ar gyfer disgyblion o bob gallu. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu llwyddiannus, sy'n sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni'n dda ac yn ymgymryd yn llwyr â'u dysgu. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i herio disgyblion gan eu holi'n fedrus a'u hannog i feddwl yn graff.

Mae oedolion yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i'r disgyblion yn ystod eu gweithgareddau er mwyn eu cynnal a'u hymestyn. Maent yn eu hannog i lwyddo ac yn eu cefnogi'n fedrus. Mae ymateb ysgrifenedig i waith disgyblion yn syml ac yn effeithiol. Mae'n rhoi arweiniad clir iddynt ar eu llwyddiannau a beth sydd angen ei wella. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella cynnwys eu gwaith wrth ailddrafftio agweddau penodol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod yn hyderus sut maent wedi gwella'u gwaith ac yn dangos y cynnydd y maent wedi ei wneud o ganlyniad i'r adborth. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn rheolaidd. Mae hyn yn rhoi perchnogaeth i ddisgyblion dros eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am iaith a diwylliant Cymru a'u milltir sgwâr. Mae staff yn hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn naturiol drwy holl weithgareddau'r cwricwlwm, er enghraifft wrth ddathlu penblwydd Waldo, wrth astudio glaniad y Ffrancod yn Abergwaun ac wrth astudio gwaith artistiaid celfyddydol lleol a chenedlaethol sydd â'u gwaith o fewn oriel yr ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, parch ac ymroddiad yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn gyson dda, maent yn gwrtais iawn ac yn barchus tuag at ei gilydd ac ymwelwyr ac maent yn ymroi yn gydwybodol i'w gweithgareddau. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan y pennaeth a'r athrawon adnabyddiaeth drylwyr o anghenion pob disgybl. Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau llwyddiannus i olrhain cynnydd a monitro lles disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio ohoni yn effeithiol i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer y disgyblion ac i ddarparu ymyraethau priodol ar gyfer y rhai sydd angen cymorth ychwanegol. Mae staff yn monitro cynnydd

disgyblion sy'n derbyn ymyraethau yn gydwybodol ac yn addasu'r cymorth, lle bo'n briodol. Mae gan bob disgybl gynllun datblygiad unigol ac, yn achos y disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, fe gânt eu llunio mewn ymgynghoriad â'r rhieni. Mae'r athrawon dosbarth yn ystyried cynnwys y rhain yn ofalus wrth gynllunio'u gwersi.

Mae'r ysgol yn rhan hollol ganolog o'r gymuned leol a manteisia'n llawn ar ei chefnogaeth, fel gyda gwirfoddolwyr yn cefnogi disgyblion yn gyson gyda'u darllen neu thrwy gyfoethogi agweddau o'r cwricwlwm, er enghraifft wrth gymeriadu arwyr lleol. Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn un gadarn a chynhyrchiol. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi drws agored ac yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw fel y gallant chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r gymdeithas rhieni yn cefnogi'r ysgol yn ariannol trwy amrywiol weithgareddau. Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gydag ysgolion eraill cyfagos, yn cynnwys yr ysgolion uwchradd lleol a chydag asiantaethau allanol, yn cynnwys y tîm iaith a lleferydd a'r seicolegydd addysg sy'n fodd effeithiol o gyfoethogi'r ddarpariaeth i'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol iawn ar gyfer hyrwyddo lles corfforol, meddyliol ac emosiynol y disgyblion. Mae'n rhoi pwyslais ar ddatblygu dysgwyr gwydn drwy ddefnydd llwyddiannus o strategaethau hybu gwydnwch fel y 'Pwll Dysgu' sy'n annog dysgwyr i ddyfalbarhau. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft drwy eu hannog i fwyta ffrwythau a byrbrydau iach ac yfed dŵr yn rheolaidd. Trefnir ystod o gyfleoedd effeithiol i ddatblygu ffitrwydd y disgyblion drwy'r clwb chwaraeon ac amrywiol gystadlaethau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn deall effaith eu dewisiadau ar eu hiechyd. Mae ymweliadau gan unigolion fel yr heddwas cymunedol yn cryfhau ymwybyddiaeth y disgyblion o sut i gadw'n iach a diogel yn llwyddiannus iawn.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae arweinwyr crefyddol yn ymweld â'r ysgol yn gyson i gynnal gwasanaethau. Mae cyfnodau cyd-addoli yn cynnig cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd fel parchu, gofalu a gwerthfawrogi. Mae'r disgyblion yn cael cyfle i ddysgu am faterion moesol fel gwarchod yr amgylchedd a chefnogi pobl sy'n llai ffodus na nhw, er enghraifft drwy gyfranogi mewn gweithgareddau i gefnogi elusennau cenedlaethol. Mae'r gweithgareddau hyn yn eu paratoi'n effeithiol iawn i fod yn ddinasyddion cyfrifol y dyfodol ac yn gwireddu arwyddair yr ysgol 'Caredigrwydd, Cyfrifoldeb, Cymreictod a Cheisio Gorau Glas' yn llwyddiannus iawn.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar hyrwyddo defnydd a meithrin balchder yn yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig gan wneud y gorau o'r ardal leol a'i chyfoeth o gyfleoedd dysgu. Mae'r disgyblion yn cael pob cyfle i fanteisio ar ystod eang o brofiadau cyfoethog, er enghraifft drwy weithgarwch Yr Urdd a thrwy ymweliad â lleoedd o ddiddordeb hanesyddol bwysig fel cadeirlan Tyddewi a'r gweithgarwch a hyrwyddir drwy'r cysylltiad â staff parc cenedlaethol. Mae hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at eu creu yn unigolion cyfrifol a hyderus.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth yn cynnig cyfeiriad strategol clir o safon uchel i holl waith yr ysgol. Caiff hyn ei rannu'n hynod lwyddiannus gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion a

rhieni. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun, o’r staff ac o’r disgyblion. O ganlyniad i’w blaengaredd, mae wedi datblygu'r ysgol yn gymuned ddysgu greadigol lwyddiannus iawn. Mae ei gweledigaeth yn canolbwyntio’n glir ar gefnogi lles disgyblion a datblygu dysgwyr uchelgeisiol a hyderus mewn awyrgylch creadigol a Chymreig. Mae’n llwyddo i sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei rhannu a’i gweithredu gan holl staff yr ysgol.

Caiff cyfrifoldebau’r staff eu dosrannu’n hynod effeithiol. Mae’r cyfrifoldebau hyn yn cynnig profiadau gwerthfawr i unigolion ddatblygu’n broffesiynol ac i arwain ar agweddau penodol o waith yr ysgol, er enghraifft wrth ddatblygu medrau rhifedd y disgyblion trwy gyfrwng heriau diddorol ac uchelgeisiol. Mae ymdeimlad cryf o waith tîm yn bodoli o fewn yr ysgol. Mae parodrwydd y staff i gyd-gynllunio profiadau ymarferol a diddorol i’r disgyblion yn cyd-fynd yn gadarn ag egwyddorion y cwricwlwm newydd. Mae’r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol lle mae staff yn dysgu oddi wrth ei gilydd mewn awyrgylch cefnogol. Enghraifft nodedig o hyn yw’r modd y mae’r ysgol yn flaengar wrth ddatblygu cwricwlwm creadigol ac ysgogol sy’n ennyn diddordeb bron pob un disgybl yn eu dysgu.

Mae prosesau hunanwerthuso’r ysgol yn effeithiol ac yn sicrhau bod gan yr athrawon ddarlun clir o’i pherfformiad. O ganlyniad, maent yn adnabod y cryfderau a’r mannau sydd angen eu gwella yn dda. Ar y cyfan, mae’r adroddiadau monitro yn arfarnol ac yn nodi’n bwrpasol yr agweddau ar gyfer gwelliant. Er enghraifft, mae’r broses wedi adnabod yr angen i ddatblygu annibyniaeth y disgyblion yn fwy cyson. O dan arweiniad cadarn y pennaeth, mae athrawon yn dadansoddi data’n effeithiol gan roi sylw manwl i ddeilliannau disgyblion a’r cynnydd y mae unigolion yn ei wneud. Enghraifft dda o hyn yw’r modd y mae’r ysgol wedi codi safonau darllen llawer o ddisgyblion a lleihau’r bwlch rhwng safon darllen Cymraeg a Saesneg. Mae holl arweinwyr yr ysgol yn chwarae rôl weithredol mewn prosesau monitro ac, o ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth gyfredol gadarn am berfformiad yr ysgol.

Defnyddir y wybodaeth o’r broses monitro yn llwyddiannus i osod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant. Mae’r blaenoriaethau hyn yn canolbwyntio’n gadarn ar godi safonau lles a chyrhaeddiad disgyblion. Mae pwyslais strategol clir ar ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru yn yr ysgol. Mae hyn yn gryfder ac yn cael ei weithredu’n llwyddiannus iawn. Mae’r trefniadau hyn wedi arwain at weithgareddau heriol ac ysgogol sy’n cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i’r ysgol, ac yn ei hadnabod yn dda. Maent yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr gan y pennaeth am waith yr ysgol. Mae’r llywodraethwyr yn cyfrannu’n llwyddiannus at brosesau hunanwerthuso’r ysgol trwy ymweld yn rheolaidd, craffu ar waith, arsylwi ar yr addysgu a sgwrsio gyda disgyblion. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella yn gadarn. Mae ganddynt wybodaeth dda am berfformiad yr ysgol ac effaith y ddarpariaeth ar safonau a lles disgyblion. O ganlyniad, maent yn dwyn yr ysgol i gyfri am ei pherfformiad ac yn chwarae rôl weithredol wrth osod cyfeiriad strategol clir ar gyfer ei datblygu.

Mae arweinwyr yr ysgol yn gwneud defnydd llwyddiannus iawn o amrywiaeth o grantiau pwrpasol, sy’n cael effaith dda iawn ar fedrau disgyblion. Er enghraifft, defnyddiwyd un grant i ddatblygu medrau llafar y disgyblion trwy ddarparu llwyfan

perfformio ar gwch pren yn yr ardal allanol.  Crëwyd llyfrgell drawiadol o fewn yr ysgol i ysgogi disgyblion o bob oed i ymfalchïo mewn darllen ac i ddewis llyfrau darllen yn rheolaidd.  Mae'r ddau brosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau llafar a darllen disgyblion ar draws yr ysgol.  Mae gwariant wedi ei gysylltu'n glir â blaenoriaethau gwelliant.  Caiff y grant datblygu disgyblion ei ddefnyddio'n effeithiol iawn i godi safonau llythrennedd a chefnogi disgyblion bregus.  O ganlyniad mae disgyblion yn dangos awch a brwdfrydedd yn eu gwaith sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2020